Printio!!

Gweithgareddau creadigol a syniadau sy'n canolbwyntio ar greu printiau wedi'u dylunio gan yr artist a'r gwneuthurwr printiau o Ddinbych, Tara Dean, wedi'u hysbrydoli gan arddangosfa Print Rhyngwladol a gynhaliwyd yn ddiweddar yn oriel Tŷ Pawb yn Wrecsam.

Cewch ymweld â'r arddangosfa yn rhithiol yma:
https://my.matterport.com/show/?m=mx3JnK7RBxZ

Cynnwys

Rholwyr
Inc printio
Papur
Glud
Cardiau post i brintio arnyn nhw
Platiau printio polystyren
Bocsys cardfwrdd bach
Papur seianoteip mewn amlen ddu wedi'i selio
Haenau sbwng ar gyfer crefft
Detholiad o ddeunyddiau gweadeddog ar gyfer printio
Blociau pren ar gyfer printio

Syniadau gweithgareddau

Dyma rai syniadau synhwyraidd ar gyfer defnyddio'r deunyddiau yn y blwch. Mae croeso i chi ddilyn eich syniadau eich hun ac anghenion synhwyraidd y bobl rydych chi'n rhoi cymorth iddyn nhw.

Gwneud marciau – creu gyda gwrthrychau amrywiol

Gwneud marciau – creu tirwedd gydag inc ar wrthrychau wedi'u casglu. Defnyddiwch y rholwyr neu sbwng i roi haenan denau o inc ar y gwrthrychau a threfnu cefndir y llun * Gellir profi hyn yn gyntaf trwy eu rhwbio efo pensil neu greion mawr. Defnyddiwch wahanol wrthrychau i roi inc arnyn nhw – dail, ffyn, blociau pren, pegiau – unrhyw beth sy'n gwneud marciau i ychwanegu nodweddion ar y llun.



Bocsys printio personol

Gwnewch eich bocs printio bach eich hun gyda chasgliad o brintiau a wnaed gan ddefnyddio gwahanol dechnegau, gan ddefnyddio'r bocsys a ddarparwyd.

Papur seinaoteip i ddefnyddio'r haul i brintio

Papur A6 sy'n sensitif i olau'r haul mewn bag du
Rhowch gynnig ar hyn ar ddiwrnod heulog i gael y canlyniadau gorau!
Tynnwch ddigon o bapur o'r bag ar gyfer eich sesiwn yn ofalus, yna caewch y bag i warchod unrhyw bapur sy'n weddill.
Rhowch y papur o'ch blaen chi gydag amrywiaeth o wrthrychau naturiol neu wedi'u cynhyrchu sy'n rhai gwastad diddorol.
Trefnwch y gwrthrychau ar y papur.
Yna symudwch y papur â'r gwrthrychau arno at sil ffenestr heulog a'u gadael yno am 30 munud.
Ar ôl hynny trochwch y papur dan ddŵr i rinsio'r cemegion oddi ar y papur a datgelu'r patrwm, a'i adael i sychu.

Printio cardiau post bach

Defnyddiwch y platiau polystyren i wneud print. Byddwch angen defnyddio'r canlynol o'r pecyn – haenau polystyren, ffyn i wneud pantiau yn y polystyren, rholwyr ac inciau, papur i ymarfer arno a chardiau.
Unwaith y byddwch chi wedi creu patrwm gallwch ei ddefnyddio i wneud llu o brintiau!



Lluniadwch neu farcio patrwm ar y polystyren efo'r ffon.

Rholiwch inc yn gytbwys ar y patrwm ar y polystyren.

Rhowch ochr y polystyren â'r inc arno yn wynebu ar i lawr ar y papur neu'r cerdyn.

Pwyswch ar y tu ôl efo rholiwr glân neu lwy bren.



Codwch y polystyren yn ofalus i ddatgelu eich print!

Printiau *collage*

Defnyddiwch ddarn o gardfwrdd gwastad fel cefndir, yna greu arwyneb gweadeddog gan ddefnyddio'r deunyddiau yn y pecyn fel swigod lapio a chardfwrdd rhychog.
Rhowch y darnau yn eu lle efo glud a gadael iddyn nhw sychu.
Rholiwch yr inc ar yr arwyneb a rhoi papur arno a'i rwbio efo llwy bren neu defnyddiwch eich llaw neu rholiwr glân, sych.

Stampiau Monobrintiau

Defnyddiwch y blociau pren yn y blwch ynghyd â'r haenau sbwng ar gyfer crefft a'r glud.
Ewch ati i greu eich stampiau eich hun trwy dorri siapiau syml o'r haenau sbwng a ddarperir.
Defnyddiwch ffon glud Pritt stick i'w gludo ar y papur, a chaniatáu iddyn nhw sych cyn rhoi inc arnyn nhw a chreu eich patrymau stampiau eich hun.

making sense CIC

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

tŷ pawb